

... ac Ati Mis Ebrill 2011

Stopping by Woods on a Snowy Evening: Robert Frost

Mae'r gerdd yn fyr. Mae testun y gerdd yn gyffredin ddigon: noson dywyll, coed ag eira ar lawr.

Stopping by Woods on a Snowy Evening gan Robert Frost (1874-1963)


*Whose woods these are I think I know.
His house is in the village though;
He will not see me stopping here
To watch his woods fill up with snow.*

*My little horse must think it queer
To stop without a farmhouse near
Between the woods and frozen lake
The darkest evening of the year.*

*He gives his harness bells a shake
To ask if there is some mistake.
The only other sound's the sweep
Of easy winds and downy flake.*

*The woods are lovely dark and deep,
But I have promises to keep,
And miles to go before I sleep,
And miles to go before I sleep.*

Wrth ddarllen y gerdd sylweddolwn nad byr mohoni ond cynnil; mae rhywbeth mawr yn cael ei ddweud. Sylwch ar deitl y gerdd: **Stopping by Woods on a Snowy Evening** (1923). Mae'r bardd ar ei ffordd i rywle. Arhosodd i wyllo'r woods fill up with snow. O ble ddaeth y bardd, ac i ble mae e'n mynd? Pam aros fan hyn?



Mae unigrwydd yn pwyso'n drwm ar y gerdd; eira'n gorwedd yn drwch, y byd wedi fferru i gyd; *the darkest evening of the year* yw hi.

Coedwig wag. Noson dawel; clustfeiniwch am sibrwd *easy winds and downy flake*. Mae'r bardd ar ei ben ei hun. Arhosodd fan hyn, ymhell o afael pawb a phopeth. Mae'r eira'n wedi troi y goedwig yn Gaer Gwydion. Gallwn ddeall ei awydd i dorri ar ei daith, i aros a syllu – dyma natur yn brydferth a swynol.

The woods are lovely, dark and deep. Dal munud neu ddwy o lonyddwch yng nghanol ei brysurdeb mawr mae'r bardd. Gallwn ddeall *Stopping by Woods on a Snowy Evening* gan fod prydferthwch byd a rhyfeddod bywyd wedi cydio ym mhawb ohonom rhywbryd, a pheri i ni oedi ar ein taith ac anghofio - am ychydig - yr holl bethau sydd yn gwasgu ar ein hamser.

Mae Robert Frost (llun) yn gorffen cerdd arall o'i eiddo *The Lesson for Today* (allan o *A Witness Tree*, 1942) gyda'r geiriau: *I would have written of me on my stone: I had a lover's quarrel with the world.* Mae'r cymal *a lover's quarrel with the world*, yn dweud rhywbeth wrthym am ein hymateb fel Cristnogion i'r byd. Mae *Stopping by Woods on a Snowy Evening* yn cynnwys disgrifiad hyfryd o brydferthwch byd, a'r munudau euraid hynny lle cawn ymdeimlo â hyfrydwch bywyd, ond y tu hwnt i brydferthwch byd a hyfrydwch bywyd, mae yna fyd a bywyd tra gwahanol: mae hagrwrch tloidi a thrais, mae budreddi rhyfel a gormes. Fel Cristnogion, mae ein Ffydd yn mynnu ein bod ni'n



mynd i'r afael ar pethau hyll hyn. Mae'r Cristion, fel ei Dduw yn caru'r byd, ond mae gan y Cristion *a lover's quarrel with the world*. Er rhyfeddod a phrydferthwch y goedwig a'r eira ... *I have promises to keep*, meddai'r bardd. Ydy, mae hwn wedi blino ... *miles to go before I sleep*, ac mae Cristnogion weithiau'n blino ar y gwaith o newid yr 'hen fyd 'ma', ond newid yr 'hen fyd 'ma' sydd rhaid. Dal ati sydd rhaid. Gwaith Ffydd, mewn cariad, ac oherwydd cariad yw newid y byd er gwell. Daliwn ati! ... *(We) have promises to keep, And miles to go*

before (we) sleep, And miles to go before (we) sleep (Llun: *Stopping by Woods on a Snowy Evening* gan Susan Jeffers (gan. 1946))